Adran Gwaith a Phensiynau

# Cyflwyniad i **Lwfans Cyflogaeth a Chymorth Dull Newydd**

**Hawdd i'w Ddarllen**



Ein cyfeirnod: **NSESA1ERW**_1022

# Cynnwys



1

Adran Gwaith a Phensiynau

**Cyflwyniad**

Tudalen 4

2




**Beth yw ESA Dull Newydd**

Tudalen 6


3




**Budd-daliadau cyfrannol**

Tudalen 8

4





**Pwy all gael**
**ESA Dull Newydd**

Tudalen 10

# Cynnwys


5




**Sut i wneud cais**

Tudalen 15

6



**Ar ôl i chi wneud cais**

Tudalen 19

# 1 Cyflwyniad

Adran Gwaith
a Phensiynau


Mae Lwfans Cyflogaeth a Chymorth Dull Newydd yn fudd-dal gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

**ESA**
**Dull Newydd**

Weithiau fe'i gelwir yn **ESA Dull Newydd.**



Os oes gennych salwch, cyflwr iechyd neu anabledd, sy'n golygu na allwch weithio, efallai y gallwch gael ESA Dull Newydd.




Bydd y wybodaeth hon yn dweud wrthych am:

- ESA Dull Newydd
- Pwy all ei gael
- Sut i wneud cais.

I gael rhagor o wybodaeth Hawdd ei Darllen am ESA Dull Newydd, ewch i www.gov.uk

Chwiliwch am **ESA Dull Newydd Hawdd i'w Ddarllen.**

# 2 Beth yw ESA Dull Newydd




Telir ESA Dull Newydd bob pythefnos fel arfer i mewn i'ch cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu.

UC Credyd Cynhwysol

Gallwch gael ESA Dull Newydd ar ei ben ei hun neu ar yr un pryd â Chredyd Cynhwysol.

UC Credyd Cynhwysol

Os ydych yn cael y ddau fudd-dal hyn, bydd eich taliad Credyd Cynhwysol yn cael ei leihau.


Bydd yn cael ei leihau gan swm yr ESA Dull Newydd a gewch.




Pan fyddwch yn cael ESA Dull Newydd, byddwch yn ennill credydau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1.




Gall y rhain helpu tuag at eich Pensiwn y Wladwriaeth a budd-daliadau cyfrannol eraill yn y dyfodol.





Mae rhagor o wybodaeth am gredydau Yswiriant Gwladol ar gael yn:

- Pennod 3, ar **dudalen 8** a
- Pennod 4, ar **dudalen 13**.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/guidance/new-style-employment-and-support-allowance.cy#pam-ddylech-chi-wneud-cais-am-lwfans-cyflogaeth-a-chymorth-dull-newydd

# 3 Budd-daliadau cyfrannol




Mae ESA Dull Newydd yn **fudd-dal cyfrannol**.

Os ydych yn gweithio ac yn ennill dros swm penodol o arian, byddwch yn talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol.



Efallai y gallwch gael Credydau Yswiriant Gwladol os ydych yn:

- Rhiant neu'n gofalwr
- Sâl
- Di-waith.



Gall taliadau Yswiriant Gwladol a chredydau eich galluogi i gael rhai budd-daliadau.




Un o’r budd-daliadau hyn yw
ESA Dull Newydd.



Pan fyddwch yn cael y budd-dal cyfrannol hwn, ni fydd eich cynilion yn effeithio ar faint o ESA Dull Newydd a gewch.





Os oes gennych bartner sy’n gweithio, ni fydd ei incwm ychwaith yn effeithio ar faint y byddwch yn cael eich talu.

I gael rhagor o wybodaeth am Yswiriant Gwladol, ewch i
[www.gov.uk/yswiriant-gwladol](www.gov.uk/yswiriant-gwladol)

# 4 Pwy all gael ESA Dull Newydd



I gael ESA Dull Newydd, mae angen **nodyn ffitrwydd** arnoch gan eich meddyg neu weithiwr iechyd proffesiynol.




Weithiau gelwir nodyn ffitrwydd yn a **‘nodyn salwch’** neu **‘nodyn doctor’**.

Bydd y nodyn ffitrwydd yn dweud pa gyflwr iechyd neu salwch sydd gennych sy’n eich atal rhag gweithio.

I gael rhagor o wybodaeth am sut i gael nodyn ffitrwydd, ewch i [www.gov.uk/government/publications/the-fit-note-a-guide-for-patients-and-employees](http://www.gov.uk/government/publications/the-fit-note-a-guide-for-patients-and-employees)

**7**
**dyddiau**

Gallwch ddal i wneud eich cais i ESA Dull Newydd os nad oes gennych nodyn ffitrwydd.

Ond mae’n rhaid i chi gael un ar ôl 7 diwrnod i barhau â’ch cais.




Ni allwch gael ESA Dull Newydd os ydych yn cael Tâl Salwch Statudol o’r gwaith.

**Egluro Tâl Salwch Statudol**

Tâl Salwch Statudol yw arian y mae eich cyflogwr yn ei dalu i chi os ydych i ffwrdd o’r gwaith oherwydd salwch.

Mae hyn fel arfer yn digwydd pan fyddwch i ffwrdd yn sâl am o leiaf 4 diwrnod neu fwy.

I gael rhagor o wybodaeth am Dâl Salwch Statudol, ewch i [www.gov.uk/tal-salwch-statudol](http://www.gov.uk/tal-salwch-statudol)




Dylai eich cyflogwr anfon ffurflen o’r enw **SSP1W** atoch.

Bydd hwn yn dweud wrthych y dyddiad y bydd eich Tâl Salwch Statudol yn dod i ben.

**3**
**mis**




Os yw eich Tâl Salwch Statudol i fod i ddod i ben yn ystod y 3 mis nesaf, gallwch wneud cais ymlaen llaw.

**2-3**
**blynyddoedd**

I gael ESA Dull Newydd, fel arfer mae angen i chi fod wedi gweithio yn y 2 i 3 blynedd diwethaf.



Gall y gwaith hwn fod yn:

- Cyflogedig
- Hunangyflogedig.

**Dosbarth 1**

neu

**Dosbarth 2**




Yn ystod y 2 i 3 blynedd diwethaf, fel arfer mae angen i chi fod wedi talu neu gael eich credydu â chyfraniadau Yswiriant Gwladol **Dosbarth 1** neu **Dosbarth 2**.

?

**Egluro cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1 a Dosbarth 2**

Mae gwahanol fathau o Yswiriant Gwladol. Gelwir y rhain yn ‘ddosbarthiadau’.

Mae’r math a dalwch yn dibynnu ar eich gwaith a faint rydych yn ei ennill.

Telir **Dosbarth 1** pan fydd gweithiwr yn ennill mwy na £242 yr wythnos ac o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Mae’r rhain yn cael eu tynnu’n awtomatig gan eich cyflogwr.

Telir **Dosbarth 2** gan bobl hunangyflogedig sydd ag elw o £6725 neu fwy y flwyddyn. Os yw eu helw o dan y swm hwn, efallai y gallant dalu cyfraniadau gwirfoddol.

Am fwy o wybodaeth, ewch i [www.gov.uk/yswiriant-gwladol/dosbarthiadau-yswiriant-gwladol](http://www.gov.uk/yswiriant-gwladol/dosbarthiadau-yswiriant-gwladol)





Os nad ydych wedi talu neu wedi cael eich credydu ag unrhyw un o'r cyfraniadau hyn yn y 2 i 3 blynedd diwethaf, mae'n debyg na fyddwch yn cael ESA Dull Newydd.




Gallwch wneud cais o hyd, os ydych yn meddwl y dylech gael ESA Dull Newydd.

# 5 Sut i wneud cais




Y ffordd gyflymaf i wneud cais am ESA Dull Newydd yw ar-lein.

## Cyn i chi wneud cais, mae angen i chi gael rhywfaint o wybodaeth gyda chi:





Eich rhif Yswiriant Gwladol, os oes gennych un.




Eich manylion banc.



Enw, cyfeiriad, a rhif ffôn eich meddyg.




Unrhyw incwm a gewch o waith.




Y dyddiad y daw eich Tâl Salwch Statudol i ben (os cewch hwn).

I wneud cais ar-lein, ewch i [www.apply-new-style-employment-support-allowance.service.gov.uk/who-is-applying](www.apply-new-style-employment-support-allowance.service.gov.uk/who-is-applying)



Os na allwch wneud cais ar-lein, ffoniwch **linell gymorth Credyd Cynhwysol.**

Mae'r llinell gymorth hon ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 6pm.



Ffôn: **0800 328 5644** (dewiswch opsiwn 3)

Ffôn testun: **0800 328 1344** (dewiswch opsiwn 3)

Ffôn Cymraeg: **0800 328 1744**



Os na allwch glywed neu siarad ar y ffôn, defnyddiwch **Relay UK**:

**18001** yna **0800 328 5644**



Os ydych yn fyddar ac yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, efallai gallwch chi ddefnyddio’r **Gwasanaeth Cyfnewid Fideo** (a elwir VRS).

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i
[www.gov.uk/credyd-cynhwysol/cysylltu-credyd-cynhwysol](http://www.gov.uk/credyd-cynhwysol/cysylltu-credyd-cynhwysol)

# 6 Ar ôl i chi wneud cais




Bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn cysylltu â chi o fewn 10 diwrnod gwaith i'ch cais.




Byddwn yn dweud wrthych os gallwch neu na allwch gael ESA Dull Newydd.



Os gallwch gael ESA Dull Newydd, byddwn fel arfer yn trefnu apwyntiad gydag anogwr gwaith o'ch swyddfa Canolfan Byd Gwaith leol.



Mae'r apwyntiad fel arfer dros y ffôn ac mae'n rhaid i chi fod ar gael ar gyfer hyn.

Os na allwch glywed neu siarad ar y ffôn, rhowch wybod i ni cyn gynted â phosibl.



Yn ystod eich apwyntiad, bydd eich anogwr gwaith yn dweud wrthych beth sydd angen i chi ei wneud i gael ESA Dull Newydd.



Bydd hyn yn cynnwys gwneud rhestr o bethau y mae'n rhaid i chi eu gwneud i gael ESA Dull Newydd.

Gelwir y rhestr hon o bethau yn **'Ymrwymiad Hawlydd'**.




Rhaid i chi gytuno i'ch Ymrwymiad Hawlydd cyn y gallwch gael ESA Dull Newydd.




Os ydych yn agosáu at ddiwedd eich oes ac yn debygol o fod â 12 mis neu lai i fyw, ni fydd angen i chi:

- Mynychu apwyntiad
- Gwneud Ymrwymiad Hawlydd.





I gael rhagor o wybodaeth am gael budd-daliadau os ydych yn agosáu at ddiwedd eich oes, ewch i:

[www.gov.uk/budd-daliadau-os-ydych-yn-derfynol-wael](www.gov.uk/budd-daliadau-os-ydych-yn-derfynol-wael)

## Yn ystod eich apwyntiad, gofynnir i chi hefyd:



- Siarad am eich salwch neu anabledd a sut mae hyn yn effeithio ar eich gwaith.




- Darparu tystiolaeth feddygol, fel nodyn ffitrwydd.

canolfanbydgwaith

Adran Gwaith
a Phensiynau

- Cytuno i ddweud wrth eich Canolfan Gwaith leol os bydd unrhyw rai o'ch amgylchiadau'n newid.

I gael rhagor o wybodaeth am ESA Dull Newydd, ewch i [www.gov.uk/guidance/new-style-employment-and-support-allowance.cy](http://www.gov.uk/guidance/new-style-employment-and-support-allowance.cy)